# Llais Llanilar

Tymor yr Haf 2024 SummerTerm

Gwell gwneud ein gorau na bod yn orau

YSGOL LLANILAR

## Hanner tymor o fwrlwm

Mae'r hanner tymor diwethaf wedi bod yn llawn bwrlwm, cynnwrf ac ymweliadau cyffrous. Mae'r plant wedi cael cyfleoedd di-ri i ddysgu am fyd natur ein hardal leol ac wedi derbyn heriau gwyddonol er mwyn datblygu eu sgiliau ymchwiliol. Mae Dosbarth Barti Ddu wedi cyd-weithio gyda Heledd Watkins i ysgrifenu stori greadigol a chyfansoddi cân — mwy o wybodaeth cyffrous ar y ffordd yn ystod yr hanner tymor nesaf!

Rydym wedi bod yn ffodus i gael dwy fyfyrwrig o Brifysgol Aberystwyth yn yr ysgol— Miss Davies yn nosbarth Gelert ac ar hyn o bryd mae Miss Williams yn nosbarth Llywelyn. Diolch yn fawr i'r ddwy am eu gwaith gwych a'u cefnogaeth ar draws yr ysgol.




Mae'r Parchedig Julian Smith yn ymweld â'r ysgol yn bythefnosol i gynnal gwasanaeth ac hoffwn ei longyfarch ar ei apwyntiad yn Parch Canon Julian Smith.

Diolch yn fawr iawn i Miss Tudor a Miss Jones am eu gwaith arbennig yn arwain Clwb Ilar am nifer fawr o flynyddoedd. Maent wedi sicrhau bod y plant yn cael sbort a sbri yn y clwb, ac mae'r plant wrth eu bodd yn mynychu. Rydym yn falch iawn i rannu mai Mrs Jane Edwards yw arweinydd newydd y Clwb a bydd yn cychwyn ar ei swydd ar ôl yr hanner tymor. Diolch hefyd i Miss Keeler a fydd yn parhau yn y Clwb tan yr haf.

*The last half term has been full of buzz, excitement and inspiring visits. The children have had countless opportunities to learn about the natural world of our local area and have collaborated on scientific challenges in order to develop their investigative skills. Dosbarth Barti Ddu has worked with Heledd Watkins to write a creative story and compose a song — more exciting news about this before the summer!*

*We have been lucky to welcome two students from Aberystwyth University in the school - Miss Davies in Gelert's class and Miss Williams is currently in Mr Roberts' class.*

*Reverend Julian Smith visits the school every two weeks to hold a service and we would like to congratulate him on his appointment as Reverend Canon Julian Smith.*



*A big thank you to Miss Tudor and Miss Jones for their fantastic work leading Clwb Ilar for many years and ensuring that the children have the best time. We are pleased to announce that Mrs Jane Edwards is the new leader of the Club and will start after half term. Thank you also to Miss Keeler who will be continuing until the summer.*

**Cofiwch ddilyn yr ysgol ar Facebook Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar ac ar Trydar @YsgolLlanilar**

**Remember to follow the school on Facebook Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar and Twitter @YsgolLlanilar**

# Gwersyll yr Urdd Glanllyn







Ar ddechrau'r tymor, aeth Blynyddoedd 5 a 6 i wersyll yr Urdd Glanllyn. Cafwyd tridiau arbennig o weithgareddau er gwaetha'r tywydd gwlyb. Buom ni yn canŵio, rhwyfo, adeiladu rhafft, cwblhau cwrs rhaffau, wal ddringo a padlfyrddio! Mwynhaodd y disgyblion sesiwn awyr agored hefyd a chyfle i fwyta malws melys wedi tostio, sioe am dylluanod, disgo a chwis!

*Year 5 and 6 pupils enjoyed a trip to Glanllyn. We had a jam packed three days full of activities. We canoed, rowed, built a raft, paddleboarded, went on a high rope course, and climbed the climbing wall. They also enjoyed toasting marshmallows, an owl show, disco and quiz.*










# Dosbarth Barti Ddu

**Helpu'r Byd! / Helping the World!**


**Fe wnaethom ni dathlu 'Diwrnod y Ddaear' yn nosbarth Barti Ddu. Cawsom hwyl yn arbed anifeiliaid rhag y sbwriel yn y dŵr a phaentio cerrig i godi ymwybyddiaeth.**

***Barti Ddu class have been celebrating 'World Earth Day'. We enjoyed saving the animals from the litter and painting a stone to represent World Earth Day.***







| deinosor | nifer |
|---|---|
| stegasorws | 1 |
| triseratops | 1 |
| igwanadon | 2 |
| terodacdael | 5 |
| plesiosor | 1 |
| tyranosorws | 7 |
| braciosorws | 3 |
| fiosoraptor | 3 |
| apatasorws | 1 |




**Deinosoriaid!** Rydym wedi bod yn gyffrous iawn i ddechrau ein thema newydd. Dyma rhai o'n gweithgareddau.

***Dinosaurs!*** *We have been excited to start our new theme. Here are some of the tasks we have completed.*

Yn ystod ein Prosiect Cerdd a Sain Llanilar rydym wedi bod yn cydweithio gyda Heledd Watkins ac rydym wedi mwynhau'r profiadau newydd hyn. Rydym wedi bod yn brysur yn dod i adnabod yr ardal leol ac yn archwilio pa seiniau rydym sydd i'w glywed ym mhob ardal a defnyddio ein dychymyg.

*During our project 'Llanilar Music and Sound' we have been working closely with Heledd Watkins and we have enjoyed these new experiences. We have been busy getting to know the local area and exploring what sound we have heard at each area and using our imagination.*

**Dyma ni yn recordio'r sgript a'r gân ar gyfer y llyfr llafar. Gwyliwch allan yn fuan...**

*Here we are recording the script and song for our audio book. Keep your eyes peeled...*





# Gŵyl y Gelli







Cafodd disgyblion Glyndŵr gyfle arbennig i fynychu Gŵyl y Gelli cyn yr hanner tymor. Ar ôl dechrau cynnar tu hwnt, cafwyd y cyfle i gwrdd â M G Leonard a Jeff Kinney, sef awdur 'Diary of a Wimpy kid'. Wrth gwrs, roedd amser am bach o siopa a hufen iâ!

*Glyndŵr class had a fantastic opportunity to visit the Hay festival before half term. After a very early start, we met M G Leonard and Jeff Kinney, the author of the book series 'Diary of a Wimpy Kid'. Of course, we also had time for a spot of shopping and an ice cream!*












# Hay Festival


# HER STEM ROBOLYMPAIDD


Thema'r Adran Iau y tymor hwn yw'r Gemau Robolympaidd a maent wedi bod yn brysur yn cystadlu yn ei tîm mewn sialensau STEM wythnosol. Rydym wedi bod yn datblygu geirfa gwyddonol a chysyniadau gwahanol drwy ein heriau a mae'r disgyblion wrth eu boddau yn aros i glywed am y sialens Newydd. Dyma flas o'n gweithgareddau STEM.

*The theme for Years 3-6 this term is the Robolympic Games. We have been busy competing in their teams in weekly STEM challenges. We have been developing our understanding of Scientific concepts and vocabulary by completing the challenges, and the pupils are always eager to find out about the new challenge. Here is a taster of our STEM activities.*





















**Sgorfwrdd** (hyd yma!)

1- Ffindir

2- Prydain

3- Siapan

4- Groeg

5- De Affrica

6- Yr Aifft

7- Moldofia

Sbaen

Tseina

Twrci

Iwerddon

Uganda

Awstralia

Ghana

# Pêl droed yr Urdd

Llongyfarchiadau i'n disgyblion fu'n cystadlu yn nhwrnament Pêl droed yr Urdd ym mis Ebrill. Aeth pob disgybl ym mlynyddoedd 5 a 6 a roedd hi'n braf i weld pawb yn mwynhau a datblygu sgiliau newydd.

*Congratulations to our pupils who competed in the Urdd football tournament in April. All our pupils from Years 5 and 6 competed and it was great to see everyone enjoying and developing new skills.*















# Dosbarth Gelert



Roedd dechrau tymor yr haf yn amser cyffrous iawn yn Nosbarth Gelert. Buom yn dysgu am ofalu am ein byd mewn nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys arbed, ail-ddefnyddio ac ailgylchu. Cafodd pawb y cyfle i ddidoli sbwriel i'r binau ailgylchu a rhoi cyfarwyddiadau i'r Beebot er mwyn iddo fynd i'r bin cywir.

Buom hefyd yn dysgu am ddinosoriaid, ffosiliau a gwaith paleontolegydd. Cawsom cyfarfod Teams gyda Megan o Amgueddfa Cymru. Dangosodd Megan ffosil o ddant T-Rex i ni a thrafod pa synau roedd gwahanol dinosoriaid yn eu gwneud.

Rydym wedi bod yn plannu hadau blodau haul mewn potiau ac yn plannu ffa, planhigion tomato a mefus, perlysiau a blodau yn yr ardd. Mae angen gwres o'r haul a dŵr o'r glaw er mwyn i'r hadau dyfu.

Gan fod tymor yr haf wedi cyrraedd rydym hefyd wedi bod yn dysgu am ddiogelwch yn yr haul. Mae tedi wedi bod yn ein helpu i gofio beth sydd angen ar ddiwrnod braf.

Hwyl am y tro,

*Dosbarth Gelert*

Cofiwch

- I wisgo eli haul.
- I wisgo sbectol haul.
- I wisgo crys-t.
- I wisgo het haul.
- I eistedd yn y cysg-od.
- I yfed dŵr.



Stori 'Dawns y Dinosoriaid' yng Nghaban y Ddraig.



T-Rex yn deor o'r wy!



Ffarwelio â Miss Davies! Diolch am bopeth â phob lwc!



Rhoi cyfarwyddiadau i'r Beebot er mwyn iddo gyrraedd y bin cywir.

# Dosbarth Gelert

The start of the summer term was a very exciting time in Dosbarth Gelert. We learned about looking after our world in several different ways including saving, reusing, and recycling. Everyone had the opportunity to sort rubbish into the recycling bins and give instructions to the Beebot so that it reach the correct bin.
We also learned about dinosaurs, fossils, and the work of a paleontologist. We had a Teams meeting with Megan from Amgueddfa Cymru. Megan showed us a fossil of a T-Rex tooth and discussed what sounds different dinosaurs made.
We have been planting sunflower seeds in pots and planting beans, tomato and strawberry plants, herbs, and flowers in the garden. Heat from the sun and water from the rain are needed for the seeds to grow.
As the summer has arrived we have also been learning about sun safety. Teddy has been helping us remember what we need to enjoy the sun safely.

Hwyl am y tro,

*Dosbarth Gelert*




Remember

- To wear sunscreen.
- To wear sunglasses.
- To wear a t-shirt.
- To wear a sun hat.
- To sit in the shade.
- To drink water.



Storytime: 'Dawns y Dinosoriaid' in Caban y Ddraig.



T-Rex hatching from the




Saying goodbye to Miss Davies! Thank you for everything and good luck!



Giving instructions to the Beebot for it to reach the correct bin.

# Cystadleuaeth Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i'n disgyblion fu'n cystadlu yn y Trawsgwlad yng Nghylch Aberystwyth yn ddiweddar. Daeth nifer yn y 10 cyntaf- arbennig!

*Congratulations to our pupils who competed in the Cross Country in Aberystwyth recently. Many came in the top 10- fantastic!*





















# C.Rh.Ff.A

Diolch i bawb am gefnogi ein Gŵyl y Gwanwyn. Cafwyd prynhawn arbennig yn gweld ein teuluoedd ac aelodau o'r gymuned yn mwynhau. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni am drefnu!







*Many thanks to all who supported our Spring fair. We had a great afternoon seeing our families and members of the community enjoying. Many thanks to the Parent Teacher Association for organising.*



Diolch yn fawr i Laura, Betsan a Tracy am ei cefnogaeth cyson gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

*Many thanks to Laura, Betsan and Tracy for their continued support with the Parent Teacher association.*

*Diolch yn fawr am brynu hwdis ffarwelio i'n disgyblion Blwyddyn 6– maent yn edrych yn arbennig!*

*Many thanks for buying our Year 6 pupils their leavers hoodies– they look fantastic!*



# P.T.F.A

# Llwyddiannau



Da iawn i'r criw yma am fod yn ran o'r tîm Aberystwyth a fu'n ennill plat Sir Benfro o dan 11.

*Well done to these pupils as part of the Aberystwyth RFC Under 11s who won the Pemnrokeshire plate.*

Da iawn i'r criw yma am fod yn ran o'r tîm Abbatak a fu'n cystadlu yn Birmingham dros y penwythnos.

*Well done to these pupils for competing with Abbatak in Birmingham over the weekend.*





Da iawn i'r criw yma am ennill ras am fywyd yn Aberystwyth.

*Well done to our pupils and staff for running the race for life recently in Aberystwyth.*

Da iawn ti am gystadlu yng Ngala nofio Caerfyrddin yn ddiweddar ac am ganlyniadau gwych!

Well done for competing in a swimming gala in Carmarthen recently and for excellent results!



# Ein Cymuned—Our Commuity

Da iawn chi am redeg Ras am Fywyd yn Aberystwyth. Gwych!

Well done for running the Race for Life in Aberystwyth.







Da iawn chi am gasglu sbwriel a chadw cymuned Llanilar yn daclus.

Well done for collecting rubbish and keeping Llanilar community clean and tidy.

# Dewiniaid Digidol



Rydym wedi bod yn ffodus o ymuno â hyfforddiant Llysgenhadon Digidol ar 'Teams' gydag ysgolion ar draws Ceredigion eto y tymor yma i ddysgu sgiliau. Edrychwn ymlaen at rannu'r sgiliau newydd gyda gweddill yr ysgol.

*We have been lucky again this term to learn new skills during our Digital Ambassadors training on Teams with schools across Ceredigion. We look forward to sharing these skills with the rest of*

**Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth. Hanner tymor hapus i bawb.**

**A big thank you to everyone for your support. A happy half term to everyone.**